

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhifyn I 2018
www.flvc.org.uk



Aelodau'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth a gweithwyr a gwirfoddolwyr o'r sector gwirfoddol yn pobi a gwerthu cacennau er mwyn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn ystod Wythnos Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth. I wybod mwy am y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, cysylltwch gyda Maris Cross, Arweinydd Tîm ar 01352 744056

.....

*Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a Chymunedol*



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

- 2 Yn y Rhifyn Hwn
- 3 Nodiadau Gan Ann
- 4 Cyfarfodydd Rhwydwaith FLVC
- 5 Newyddion Cymunedol
- 7 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 8 Ariannu
- 10 Newyddion FLVC
- 11 Gwirfoddoli
- 12 Llywodraethu Da

*Gallwch fod
yn rhan o'r
cylchlythyr hefyd!*

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna ebostiwc eich erthygl atom:
Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu, Corlan,
Parc Business yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP
info@flvc.org.uk
01352 744000


Fuasech chi'n fodlon derby nein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost ?

Bu inni anfon arolwg at ein hapddalwyr yn ddiweddar a bu i dros 80% o'r ymatebwyr ddatgan y byddan nhw'n fodlon derbyn y ddogfen hon ar-lein.

Bydd copiau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copiau called. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost jane.hewson@flvc.org.uk

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhifyn 1 | 2018
www.flvc.org.uk



Aelodau'r Gyrrddithas Genedlaethol Awstriaeth a gweithwyr a gwirfoddwyr o'r sector gwirfoddol yn poby a gwerthu cacennau ar mwy o ddiwrnodau awstriaeth yn ystod Wythnos Codi Troseddau'n Awstriaeth. I helpu mwy am y Gyrrddithas Genedlaethol Awstriaeth, cynhyrchwch gyda Marie Cross, Arweinydd Tm ar 01352 744006

*Cefnogi, Hyrwyddo
a Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a
Chymunedol*



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu gwrpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Croeso i rifyn diweddaraaf Llais Gwirfoddol.

Geiriau allweddol i staff FLVC ers ein rhifyn diwethaf ydy ansawdd ac effaith. Wrth i'r corff rhwydwaith mewnol cefnogaeth trydydd sector cenedlaethol (Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru) ddatblygu prif flaenoriaethau yn ymwneud â'n pedwar maes gwaith, rydym yn mynd ati i ymdrin â'r datblygiadau hyn yn ein Cynlluniau Gweithredol.

Ers y rhifyn diwethaf, byddwch yn ymwybodol y bu newidiadau sylweddol yn ein mudiad – nid ydym yn medru cynnig gwasanaethau Argraffu na Chyflogres erbyn hyn. Rydym yn ymwybodol y bu grwpiau Trydydd Sector ledled y Sir yn gwerthfawrogi'r ddau wasanaeth ond ni fu'n benderfyniad rhwydd i gael gwared â'r nodweddion hyn. Fel mudiad bu'n rhaid inni ganolbwyntio ar ein dyletswydd unigryw yn hyrwyddo a datblygu cefnogaeth Trydydd Sector, gan ail-werthuso ein gallu i ddatblygu gwasanaethau lle nad ydyn nhw'n hanfodol a'r costau ynghlwm i'w cynnal nhw. Gan edrych tua'r dyfodol, bu inni gytuno ar ffynonellau amgen. Bydd holl aelodau FLVC yn derbyn gostyngiad o 20% ar argraffu drwy Double Click, y prosiect Menter Gymdeithasol Argraffu a Dylunio gan Dîm Iechyd Meddwl Cyngor Sir y Fflint (gwelwch dudalen XXX) a bu inni gefnogi mudiadau i drosglwyddo eu gwasanaeth cyflogres i ddarparwyr eraill cymeradwy. Er y bu'r penderfyniadau'n anodd, mae'n rhaid i'n mudiad ganolbwyntio ar fantoli'r cyfrifon a bodloni ein targedau er mwyn cryfhau'r sector. Mae croeso ichi gysylltu gyda ni os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch argraffu neu'r gyflogres a byddwn yn gallu'ch rhoi chi ar ben ffordd ynghylch y gefnogaeth briodol.

Buom yn gweithio yn CORLAN am bron i ddeng mlynedd ac rydym ar hyn o bryd yn bwrw golwg ar y dewisiadau ar gyfer ein lleoliad yn y dyfodol. Yn wir ar gyfer sawl grŵp Trydydd Sector, mae'r costau cynyddol a'r lefelau incwm yn gostwng yn golygu bod yn rhaid inni ddod o hyd i swyddfa sy'n fwy cost effeithiol. Byddwn yn eich diweddarau ynghylch unrhyw ddatblygiadau ac fe hoffwn ddiolch yn fawr ichi am eich cefnogaeth yn ystod cyfnod o newid (arall eto).

Ar nodyn gadarnhaol, mae FLVC yn dal i feddu ar y faint o gefnogi'r sector gwirfoddol a chymunedol gyda'u gwaith hanfodol sy'n torri tir newydd. Fel aelod o Gefnogaeth Trydydd Sector Cymru, mae ein holl waith yn berthnasol i un neu fwy o'r meysydd canlynol

- Cydweithio a Dylanwadu ee cydweithio gyda phartneriaid Statudol i ofalu caiff mudiadau'r Trydydd Sector leisio'u barn a gofalu caiff eu gwaith ei werthfawrogi
- Cyllid Cynaliadwy– ee cynnig cefnogaeth i fudiadau gyda chynllunio ar gyfer dod o hyd i gyllid, dod o hyd i gyllid a cheisio am gyllid
- Llywodraethu da ee – cydweithio gydag Ymddiriedolwyr i lunio dogfennau polisi, ymarferion a llywodraethu
- Gwirfoddoli ee – cynnig gwybodaeth ac arweiniad ynghylch Rheoli Gwirfoddoli a Gwirfoddolwyr

Mae Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru wrthi'n datblygu prosesau monitro a gwerthuso mwy cadarn ar gyfer ein gwaith yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol. Mae FLVC yn hynod frwdfrydig am y gwaith.

Mae amserlen ein digwyddiadau ar gyfer 2018 ar dudalen 4. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yn un neu fwy o'n digwyddiadau. Mae croeso ichi gysylltu gydag aelod o'n tîm os gallwn eich helpu mewn unrhyw ffordd.

Cofion gorau

Ann

Prif Swyddog
01352 744028

ann.woods@flvc.org.uk

CYFARFODYDD RHWYDWAITH FLVC 2018

	Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli	Rhwydwaith Lles N.E.W.	Rhwydwaith Ymddiriedolwyr	Digwyddiad / Rhwydwaith Blynyddol
Mai		10 Mai 2018 Sir Y Fflint (Lleoliad i'w gadarnhau)	22 Mai 2018 Corlan	
Mehefin				
Gorffennaf	Gorffennaf y 23ain 2018 9.30yb-12.00yp Corlan	12 Gorffennaf 2018 Wrecsam (Lleoliad i'w gadarnhau)		
Awst				
Medi		13 Medi 2018 Sir Y Fflint (Lleoliad i'w gadarnhau)		13 Medi 2018 Cyfarfod Blynyddol FLVC 6.00 yh Theatr Clwyd
Hydref	Hydref yr 22ain 2018 9.30yb-12.00yp Corlan		16 Hydref 2018 Corlan	
Tachwedd		8 Tachwedd 2018 Wrecsam (Lleoliad i'w gadarnhau)		Tachwedd 2018 Cynhadledd y Trydydd Sector
Rhagfyr				
	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Trefnwyr Gwirfoddoli cysylltwch gyda Janet Owen ar 01352 744017	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Lles, cysylltwch gyda Karen Peters ar 01352 744015	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Ymddiriedolwyr, cysylltwch gyda Shaun Darlington ar 01352 744027	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Blynyddol, cysylltwch gyda Jane Hewson ar 01352 744030

Walkabout Flintshire.

Pwy neu beth ydy Walkabout Flintshire?

Be well na throedio cefn gwlad fendigedig yng nghwmni ffrindiau? Mae gan raglen Walkabout Flintshire ddigonedd i'w gynnig. Mae teithiau i ddechreuwr o amgylch y dref, teithiau yn troedio brynau'r ardal a hyd yn oed cerdded Nordig. Mae'r holl deithiau cerdded am ddim ac o dan arweiniad gwirfoddolwyr cymwys, di-dâl.

Os ydych chi'n dymuno taith gerdded tu hwnt i'r dref, rydym ni'n trefnu'r rheiny hefyd. Bu i grwpiau gerdded fentro mor bell i'r de â Swydd Amwythig, Eryri, Cilgwri, Swydd Gaer a Southport. Mae pawb yn cytuno eu bod yn ddiwrnod allan gwyh.

Felly pam cerdded? Mae tystiolaeth fod buddion cadarnhaol ynghlwm â cherdded. Ymysg y buddion mae colli pwysau, gostwng pwysedd gwaed, lleihau tyndra, rhoi hwb i egni a chyfle i wneud ffrindiau newydd.

Ffurfiwyd y Walkabout Flintshire yn 2003 fel grŵp cerdded i wella iechyd. Roedd yn fenter gan Gyngor Sir Clwyd wnaeth benodi rheolwr cerdded llawn amser i ddatblygu teithiau cerdded iechyd ledled y Sir. Erbyn hyn mae'n elusen hunangynhaliol ac mae gennym ni dros 50 o arweinwyr cerdded yn arwain

25 taith am ddim yr wythnos yn y Sir o Ronant i'r Wyddgrug a Bwcle.

Gan edrych tua'r dyfodol, hoffai'r Walkabout Flintshire weld teithiau rheolaidd yn ardaloedd eraill yn y Sir. Buasai unrhyw un sy'n dymuno derbyn yr her hon, buasen nhw'n derbyn hyfforddiant arwain cyflawn gan ein tîm o hyfforddwyr cymwys. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal mwy o deithiau gyda'r nos ac ar y penwythnos i annog pobl ieuegach sy'n gweithio ac yn brin o amser.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd wrthi'n ceisio dod o hyd i gyllid pellach er mwyn gofalu bod modd inni barhau i gynnig teithiau cerdded o dan arweiniad am ddim yn y Sir.

Mae gennym ni wefan www.walkaboutflintshire.com lle mae'r holl newyddion diweddaraf a'r manau cychwyn ar gyfer ein teithiau y tu hwnt i'r dref ynghyd â rhaglenni yn y Gymraeg a Saesneg. Gallwch gysylltu gyda ni drwy'r wefan ac rydym bob amser yn awyddus i glywed gan gerddwyr newydd. Neu gallwch ein dilyn ni ar Facebook; www.facebook.com/walkaboutflintshire

Uchod: Enid Shaw (9fed o'r dde) yn dathlu ei phen-blwydd yn 80ain gyda cherddwyr yr Wyddgrug.



Mae'r prosiect *Dynion mewn Siediau* KIM yn brosiect wedi ei sefydlu'n ddiweddar yn Nhreffynnon. Prif nod y prosiect ydy lleihau gwahardd dynion yn gymdeithasol drwy gynnig lle sy'n eu hannog i gymryd rhan. Nod eilradd y prosiect ydy cynnig cyfle i ddynion ddysgu ystod o sgiliau caled a meddal er mwyn cefnogi aelodau unigol sy'n ceisio dod o hyd i waith. Mae 'Dynion mewn Siediau' yn grwpiau cymdeithasol mewn cymunedau sydd er budd i ddynion. Mae edrychiad pob sied unigol a'r gweithgareddau ynddyn nhw'n dibynnu'n llwyr ar sgiliau a diddordebau'r grŵp.

Mae'r dynion o Dreffynnon ac ardaloedd gwledig cyfagos yn llunio eu hagenda eu hunain ar gyfer y sied, fel enghraifft:

- Ystyried tasgau maen nhw'n dymuno eu cyflawni a sut i'w cyflawni
- Defnyddio siopau lleol i brynu nwyddau gan gadw at gyllideb y grŵp
- Cadw teclynau a chynnal yr adeilad
- Creu a gwella mannau cymunedol
- Dysgu sgiliau yn y sied y maen nhw'n medru eu defnyddio adra
- Plannu cynyau i'w defnyddio yng nghegin KIM ar gyfer prydau cymunedol
- Paratoi prydau cymunedol

Diben yr holl waith ydy dod ynghyd fel tîm.

Bu i brosiect Dynion mewn Siediau KIM geisio am grant gan Gist Gymunedol Sir y Fflint er mwyn medru prynu offer i'r dynion fedru cynnal y safle maen nhw'n gweithio arno a gwella'u sgiliau a'u cyfle i ddod o hyd i waith. Bu iddyn nhw dderbyn cyllid i brynu peiriant torri gwair ac offer garddio caiff eu defnyddio yn KIM ac yn y pen draw buasai modd eu defnyddio i gefnogi prosiectau lleol eraill. Doedd dim trydan na gwres yn adeilad y dynion felly bu iddyn nhw ddefnyddio'r grant i ddarparu'r ddwy elfen anghenraid sylfaenol hyn a gofalu fod modd i'r grŵp weithio yn ystod y misoedd oerach. Bu i'r dynion ofyn am safle y tu allan i weithio arno pan mae'r tywydd yn ffafriol ond roedden nhw'n bryderus ynghylch yr haul uniongyrchol. Felly fe benderfynwyd prynu gasebo. Bydd y grant sy'n gyfanswm o £750 o fudd i oddeutu 40+ o aelodau pob blwyddyn.

System newydd i helpu mudiadau i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr

Mae partneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru i gyflwyno llwyfan digidol newydd i alluogi mudiadau i hysbysebu am wirfoddolwyr, eu recriwtio a'u rheoli, ac i wirfoddolwyr allu dod o hyd i gyfleoedd addas. Mae'r platfform newydd dwyieithog yn cael ei lansio ym mis Ebrill a bydd ar gael ar yr un cyfeiriad â'r gronfa ddata gwirfoddoli sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Cymru gyfan, www.gwirfoddolicymru.net. Mae'r system yn rhad ac am ddim i'w defnyddio ac yn darparu gwell nodweddion i fudiadau a gwirfoddolwyr.

Bydd gwirfoddolwyr yn gallu dod o hyd i gyfleoedd drwy chwilio am eiriau allweddol neu yn ôl y pellter o'u cartref. Byddant hefyd yn gallu cofnodi eu horiau a'r sgiliau a enillir drwy wirfoddoli a byddant yn derbyn bathodynau digidol. Byddant yn gallu rhannu eu newyddion am eu gweithgaredd gwirfoddoli ar y cyfryngau cymdeithasol yn hawdd iawn. Bydd y system, ar gyfer mudiadau, yn eich helpu i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, cofnodi oriau gwirfoddoli, trefnu rotâu a digwyddiadau, cofnodi hyfforddiant a phrofiad a chynhyrchu adroddiadau. Mae digonedd o offerynnau rheoli ar-lein ar gael drwy'r system i gwblhau tasgau gweinyddol yn gynt ac yn haws ac i ganiatáu mwy o amser i chi gefnogi gwirfoddolwyr, gwella profiadau gwirfoddolwyr ac i ddathlu'r gwahaniaeth maent yn ei wneud i'ch mudiad.

Gofynnir i fudiadau sydd â chyfleoedd gwirfoddoli yn barod ar yr 'hen' fersiwn o'r wefan gwirfoddolicymru.net i gofrestru o'r newydd ar y system newydd, ac i ddechrau rhannu eu cyfleoedd gwirfoddoli. Mae ychydig o arweiniad ar sut i ddechrau arni i'w weld yma (ynghlwm).

Os ydych chi'n fudiad sy'n recriwtio ac yn rheoli gwirfoddolwyr ac fe hoffech roi cynnig ar ein system newydd, cofrestrwch cyn gynted â phosibl ar y cyfeiriad gwe.dros.dro.volunteerwales.teamkinetic.co.uk a dechreuwch rannu manylion eich cyfleoedd gwirfoddoli nawr.

Dwyieithrwydd yn y Gweithle

Mai'r 24ain 2018 – Y Rhyl

Amser: 10yb – 1yp

Hyfforddwr: Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

Cost: Mae hon yn sesiwn hyfforddiant AM DDIM

Cadw lle yma www.wcva.org.uk/training

Mae'r sesiwn hyfforddiant AM DDIM hwn gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn gyfle i'r rheiny sy'n mynychu ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu mudiad nhw. Bydd gwybodaeth, gwaith ymchwil a chynghor ymarferol er mwyn i'r unigolion fynd ati i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn eu mudiad.

Beth ydy swyddogaeth yr iaith Gymraeg yn y trydydd sector? Sut mae'n berthnasol i chi, eich mudiad a'ch cleientiaid? Sut allwch chi gynllunio i ofalu eich bod yn bodloni anghenion y rheiny sy'n manteisio ar eich gwasanaeth?

Bydd y sesiwn hyfforddiant hon sy'n hanner diwrnod o hyd yn bwrw golwg ar fanteision yr iaith Gymraeg, cyd-destun yr iaith yn hanesyddol a chyfredol, y gefnogaeth sydd ar gael gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg a syniadau ynghylch cynllunio ymarferol er mwyn cynyddu'ch defnydd o'r iaith Gymraeg.

Rheoli'n Ddiogel

Mehefin y 4ydd – 6ed 2018 (3 diwrnod)

Lleoliad: Groundwork Gogledd Cymru, 3-4 Plas Power, Tanyfron, Wrecsam LL11 5SZ

Hyfforddwr: Caiff yr holl gyrsiau eu cynnal gan hyfforddwr cymwys achrededig.

I wybod mwy ac i gadw lle, cysylltwch gyda'r Tîm Hyfforddi ar 01978 757 524

Caiff y cwrs hyblyg tridiau o hyd hwn, lle mae cyfle i chi ennill tystysgrif, ei gydnabod yn genedlaethol. Bydd yn ymdrin â'r wybodaeth ac adnoddau sydd eu hangen arnoch chi i fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch yn eich amgylchedd penodol chi. Mae'r cwrs yn addas ar gyfer rheolwyr a goruchwylwyr unrhyw sector ac unrhyw fudiad.

Mae Rheoli'n Ddiogel yn cyflwyno ffordd gwbl newydd i ymdrin â hyfforddiant iechyd a diogelwch. Mae'n gwrs wyneb yn wyneb rhyngweithiol sy'n ymwneud â'r holl bwyntiau rheoli sylfaenol gyda

chynnwys technegol o'r radd flaenaf yn seiliedig ar yr hyn sy'n hanfodol bwysig i chi fedru cynnal eich busnes.

Byddwn yn darparu deunydd y cwrs, pecyn hyfforddiant, tystysgrif a chinio. Dewch â'ch cinio'ch hun.

Tystysgrif Ymwybyddiaeth

Awtistaidd

Cynllun Ar-lein

Mae'r Cynllun Tystysgrif Ymwybodol o Anhwylderau'r Sbectrwm Awstistaidd – Cyflwyniad i Anhwylderau'r Sbectrwm Awstistaidd a chynghor ar sut allwch chi helpu. Diben y cynllun ydy gwobrwyo'r rheiny sy'n mynd ati i ddysgu am Anhwylderau'r Sbectrwm Awstistaidd ac mae'n addas ar gyfer pawb. Unwaith i chi ymuno â'r cynllun, bydd gofyn i chi gyflwyno'ch manylion. Caiff yr wybodaeth ei ddefnyddio i fonitro faint sy'n manteisio ar y cynllun ledled Cymru ac o fewn busnesau a gwasanaethau.

Unwaith i chi gyflwyno'ch manylion, bydd gofyn i chi ateb cyfres o 20 cwestiwn. Os ydych chi'n llwyddo gyda hyn, byddwn yn llunio tystysgrif personol i chi fedru ei lawr lwytho. Os ydych chi'n ateb cwestiwn yn anghywir, bydd cyfle i chi roi cynnig arall arni.

I weld y mudiadau Ymwybodol o Anhwylderau'r Sbectrwm Awstistaidd sydd wedi ymuno â'r cynllun, neu os hoffai'ch mudiad chi fod yn rhan o'r cynllun, cliciwch ar y ddolen: **www.ASDinfoWales.co.uk/organisations**

I weld y Cyflwyniad PowerPoint a dogfennau PDF ategol, ewch i **<http://www.asdinfowales.co.uk/asdaware>**

FLVC – Cynllun Hyfforddiant

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn diweddarau ein Cynllun Hyfforddiant. I wybod mwy am gyrsiau gan FLVC, cysylltwch gyda **jane.hewson@flvc.org.uk**



Sefydliad Codi Arian Cymru - Archwiliad ar y sefyllfa codi arian

Gwahoddir elusennau cofrestredig sydd â dau neu fwy o aelodau staff a chydag incwm gwirfoddol o hyd at £50,000 i wneud cais am gymorth codi arian yn rhan o'n prosiect "Archwiliad ar y Sefyllfa Codi Arian a Hyfforddiant Gweithredol" a ariennir gan y Loteri Fawr.

Caiff elusennau llwyddiannus eu paru â hyfforddwr profiadol a fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu strategaeth codi arian newydd, gan felly gynyddu'r sgiliau codi arian a'r wybodaeth yn yr elusen.

I gael pecyn gwybodaeth a ffurflen gais cysylltwch ag alisonp@institute-of-fundraising.org.uk neu ffoniwch 02920 340062



Mae **Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol** yn cynnig cyllid o £300 i £10,000 er mwyn cefnogi'r hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau.

Gallwch geisio os ydy eich mudiad yn un o'r canlynol:

- mudiad gwirfoddol neu gymunedol
- elusen gofrestredig
- grŵp neu glwb cyfansoddiadol
- cwmni nid er elw neu Gwmni Buddiant Cymunedol

- menter gymdeithasol
- ysgol
- corff statudol (gan gynnwys cynghorau tref, plwyf a chymunedol).

Mae dwy ffordd o geisio ar hyn o bryd: drwy ffurflen gais PDF neu drwy ffurflen gais ar-lein.

I wybod mwy ac i lawr lwytho ffurflen gais ewch i www.biglotteryfund.org.uk



Ymddiriedolaeth Naturesave

Y prif feysydd rydym yn eu hariannu: –

- Prosiectau Cadwraeth – Cydweithio gyda chymunedau a mudiadau i warchod bywyd gwyllt a gwella bioamrywiaeth.
- Prosiectau Mentrau Cymdeithasol – Cydweithio gydag elusennau a mudiadau gwirfoddol i gefnogi grwpiau bregus a difreintiedig.
- Grantiau Ynni Cymunedol Adnewyddadwy – Cynnig grantiau cychwynnol 'seed corn' i brosiectau ynni cymunedol adnewyddadwy.
- Adolygiadau Perfformiad Amgylcheddol – Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ariannu adolygiadau annibynnol ar gyfer cwsmeriaid masnachol Yswiriant Naturesave. Mae'r rhain yn helpu ein cwsmeriaid busnes i fod yn fwy cynaliadwy.

I wybod mwy, ewch i - <http://www.naturesave.co.uk/the-naturesave-trust/>

Sefydliad Codi Arian Cymru - Cyfle i gael hyfforddiant gweithredol

Gellir anfon cais nawr ar gyfer ein cynnig Hyfforddiant Gweithredol, sy'n rhan o'n prosiect ' Sgiliau Trydydd Sector' a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r hyfforddiant ar gael i unigolion sy'n codi arian.

Manylion:

- Ariennir gan fenter ' Sgiliau Trydydd Sector' y Gronfa Loteri Fawr
- Ar gyfer unigolion proffesiynol sy'n codi arian
- 30 o gyfranogwyr dros gyfnod o 3 blynedd
- Cyfarfod cychwynnol ac asesiad
- Cyfnod ymgynghori chwe diwrnod
- Cymorth ymgynghori gwerth £2800 am ddim ond £1100 o fuddsoddiad gan yr elusen

Meini Prawf:

- Elusennau cofrestredig wedi eu lleoli yng Nghymru
- Ieaf un unigolyn codi arian penodedig

I gael mwy o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch ag AlisonP@institute-of-fundraising.org.uk neu ffoniwch 02920 340062.

Cynllun Grantiau Amgylcheddol Sefydliad Greggs yn agor ar gyfer ail rownd yn 2018

Mae rhaglen Grantiau Amgylcheddol Sefydliad Greggs nawr yn gwahodd ceisiadau am grantiau gwerth hyd at £2,000 ar gyfer prosiectau yn Lloegr, Cymru a'r Alban sy'n darparu buddion gwirioneddol i'r amgylchedd.

Mae'n rhaid i'r prosiectau wneud y canlynol:

- Gwella'r amgylchedd lleol
- Sicrhau bod cymunedau lleol yn cymryd rhan.
- Cyflawni gwahaniaeth cynaliadwy a mesuradwy.
- Cefnogi pobl mewn angen.

Gall y nawdd gael ei ddefnyddio i brynu offer, i dalu costau cyflog sesiynol, i brynu coed/planhigion, i brosiectau cyfalaf bychan ac i dalu am weithgareddau dysgu.

Gall mudiadau dielw gyda throsiant o £300,000 neu lai yn ogystal ag ysgolion yn Lloegr, yr Alban a Chymru ymgeisio.

Bydd mudiadau sydd wedi'u lleoli yn agos i siopau Greggs yn cael blaenoriaeth.

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw 22 Mehefin 2018 (hanner dydd).

Mae mwy o wybodaeth ar gael gan Sefydliad Greggs ar 0191 212 7626.

Newyddion FLVC

- Bu newidiadau yn sefyllfa staffio Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Y Fflint. Mae ein Cydlynnydd Hwb Help Cynnar, Jan Owen, erbyn hyn yn gweithio yn ein Canolfan Wirfoddoli. Llongyfarchiadau i Jan! Caiff y swydd wag yn yr Hwb ei hysbysebu yn ystod yr amser caiff hwn ei anfon i'w argraffu ac mae Kate Howard (Cydlynnydd Pwynt Mynediad Unigol) yn cyflenwi'r swydd yn y cyfamser.
- Mae ein Prosiect Gwirfoddoli Teuluoedd yn Gyntaf i Bobl Ifanc yn newid sy'n golygu y bu'n rhaid inni ffarwelio gyda Matt Weedall ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth yn cydweithio gyda Phobl Ifanc gyda FLVC.

Mis Mawrth 2018 bydd ein Gwasanaeth Ystafell Argraffu yn dod i ben hefyd a bydd Irene Langford, sydd wedi helpu llawer ohonoch chi gyda'ch gwaith argraffu a chyhoeddusrwydd, yn gadael y mudiad ar ôl sawl blwyddyn o wasanaeth. Hoffem ddymuno'n dda i'r ddau ohonyn nhw gyda'u cynlluniau yn y dyfodol.

- Mae ein corff Cenedlaethol, Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, yn cyflwyno adnoddau Mesur Effaith a Rheoli Cofnodion newydd ar y we er mwyn casglu data a gwybodaeth am ddeilliannau. Cadwch olwg am hyn!



Cyrsiau Anwytho Achrededig ar gael i'ch gwirfoddolwyr

Ydy eich mudiad chi'n recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr? Hoffech chi iddyn nhw fanteisio ar gwrs anwytho achrededig cyffredinol i wirfoddolwyr? Mae FLVC yn cynnig Cwrs Anwytho i Wirfoddolwyr sy'n ddeuddydd o hyd ar gyfer gwirfoddolwyr /

gwirfoddolwyr dichonol sy'n gysylltiedig â mudiadau yn Sir Y Fflint.

Mae'r cwrs wedi ei achredu gan Agored Cymru (2 gredyd ar Lefel Mynediad 2) ac mae'n ymdrin ag agweddau cyffredinol y canlynol

- Iechyd a Diogelwch
- Cyfleoedd Cyfartal
- Cyfrinachau
- Ffiniau
- Cefnogi a Goruchwylio Gwirfoddolwyr
- Goruchwylio Sylfaenol (cyflwyniad cryno)

Mae modd addasu'r cwrs i ymwneud â gwahanol ddyletswyddau Gwirfoddoli yn y mudiad y mae'r rheiny sy'n mynychu yn rhan ohonyn nhw – (Mae gofyn i Fudiadau rannu Disgrifiadau eu Swyddi Gwirfoddol gyda FLVC cyn y cwrs)

Teitl y Cwrs: Anwytho i Wirfoddolwyr

Lefel: Lefel Mynediad 2

Gwerth y Credyd: 2

Nifer yr oriau: 10 (dros ddeuddydd neu dair noswaith)

Cost y pen: O AM DDIM i £80 (yn dibynnu ar drothwy incwm eich mudiad)

Mae'r cwrs yn un â strwythur iddo ond mae hefyd yn anffurfiol ac mae cyfle i'r rheiny sy'n cymryd rhan gwblhau portffolio byr o dystiolaeth i'w gyflwyno er mwyn derbyn Achrediad am eu gwaith (dewisol) Bydd tîm staff Canolfan Wirfoddoli FLVC yn cefnogi'r rheiny sy'n cymryd rhan drwy gydol y cwrs.

I wybod mwy, cysylltwch gyda'r Ganolfan Wirfoddoli FLVC Rhif Ffôn: 01352 744000
info@flvc.org.uk

Bu'r rheiny sy'n rhan o'r cwrs **Stepping up to Volunteering** yn brysur dros ben yn ystod y mis diwethaf. Buon nhw'n cynnal a chadw gwarchodfa Llwyni yng Ngheir Connah a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, yn gweithio mewn siopau elusen yn yr Wyddgrug a gwirfoddoli mewn digwyddiadau lle'r oedd cyfle iddyn nhw chwarae drymiau o bob cwr o'r byd!

Os hoffech chi wybod mwy am y cwrs Camu at Wirfoddoli, cysylltwch gyda Chris.Ablett@flvc.org.uk (01352 744019) neu Jill.Blandford@flvc.org.uk (01352 744001)

Gwirfoddoli A Gwasanaethau Cyhoeddus Yng Nghymru

Ionawr 2018 – comisiynwyd gan WCVA Sandy Clubb

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn newid oherwydd ffactorau gan gynnwys yr angen i fodloni galw cynyddol gyda llai o adnoddau. Gyda'r newid hwn daw nifer o gyfleoedd a heriau, a chynigia'r potensial i ailystyried rôl gwirfoddolwyr a gweithredu cymdeithasol i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan wirfoddolwyr eisoes rôl bwysig i'w chwarae i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, a gyda'r cynllunio a'r gefnogaeth iawn, mae'n bosibl cyflawni mwy a sicrhau canlyniadau gwell fyth. Bydd gwneud cynlluniau mewn da bryd ar gyfer gwirfoddolwyr, ynghyd ag arweiniad cadarn gan Lywodraeth Cymru, gan arweinwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn hanfodol.

Mae manteision amrywiol iawn i'w cael o gynnwys mwy o wirfoddolwyr; gan gynnwys; gwell canlyniadau mewn gwasanaethau cyhoeddus; manteision i iechyd a lles gwirfoddolwyr; gwasanaethau sydd wedi'u dylunio'n well oherwydd cyfraniad cynyddol gan ddinasyddion; gwell lefelau recriwtio a chadw staff yn lleol o ganlyniad i wirfoddolwyr yn cael gwaith, a llawer, llawer mwy.

Mae rhwystrau i'w goresgyn, er enghraifft, ofnau y caiff gwirfoddolwyr eu defnyddio i guddio

toriadau mewn cyllidebau. Fodd bynnag, mae llawer yn hysbys am yr hyn sydd eisoes yn gweithio, ac mae'r papur hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion am sut i sicrhau bod cyfraniad gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddiannus ac yn esgor ar y manteision gorau posibl.

Ymysg y cwestiynau a ofynnir i'r penderfynwyr y mae sut byddant yn cefnogi ac yn ariannu dulliau arloesol o gynnwys gwirfoddolwyr a sicrhau bod y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys rhoi cefnogaeth i fudiadau cymunedol y mae eu cyllid dan fygythiad neu eisoes wedi'i gwtogi.

Am gopi o'r papur cyflawn, anfonwch e-bost at Fiona Liddell: FLiddell@WCVA.org.uk

Mae **'Step Up Step Out'** yn gynllun gwirfoddoli, wedi ei gefnogi, y mae FLVC yn ei gynnal ar y cyd â MIND Gogledd Ddwyrain Cymru. Rydym yn cynnal cyrsiau gwirfoddoli i grwpiau ar ddydd Mawrth ac mae'n gyfle i roi cynnig ar ystod eang o gyfleoedd ledled y sir. Rydym yn hoff o wirfoddoli yn yr awyr agored yn enwedig gan ein bod yn gwybod fod treulio amser ymysg natur yn helpu gwella ein lles corfforol a meddyliol.

Eleni, diolch unwaith eto am gyllid gan ACTIF WOODS WALES, bu inni fedru mynd ati i gynnig OCN mewn Nwyddau Prysgwydd yng Nghanolfan Sgiliau Coedwig Bodffari. Ar y cwrs Nwyddau Prysgwydd hwn buom yn dysgu am y goedwig, adnabod coed a dysgu sut mae popeth yn gysylltiedig gyda'i gilydd. Gan ddefnyddio dulliau traddodiadol, buom yn gweithio gyda choed yn uniongyrchol o'r goedwig leol a dysgu sut i wneud offer syml. Bu cyfle hefyd inni wneud golosg, panel ffens wedi ei wehyddu o'r enw clwyd a hefyd gosod gwrychoedd.

'Bu'n gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd a dysgu sgiliau newydd.'

'Bu'n help imi ganolbwyntio ar bethau eraill yn ystod yr wythnos ac yn help imi anghofio am fy nhrafferthion.'

Comisiwn Elusennau'n atgoffa ymddiriedolwyr bod diogelu yn flaenoriaeth lywodraethu allweddol.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn atgoffa ymddiriedolwyr y dylai diogelu fod yn flaenoriaeth i bob elusen, nid dim ond y rheini sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol o fod mewn risg.

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn atgoffa ymddiriedolwyr y dylai diogelu fod yn flaenoriaeth i bob elusen, nid dim ond y rheini sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol o fod mewn risg.

Daw hyn wrth i'r rheoleiddiwr gyhoeddi adroddiad sy'n dangos bod pryderon diogelu yn gynyddol amlwg yn ei waith achos cydymffurfio gydag elusennau.

Mae adroddiad blynyddol y Comisiwn ar ei waith achos cydymffurfio, Tackling abuse and mismanagement, yn datgelu bod pryderon diogelu yn rhan o 302 o achosion cydymffurfio rheoleiddiol a agorwyd yn 2016-17, sydd wedi cynyddu o 163 yn y flwyddyn flaenorol. Mae datgeliadau ag asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu wedi cynyddu 30%, i 244 (o 187 yn 2015-16). Roedd chwe ymholiad statudol, gweithrediad mwyaf difrifol y rheoleiddiwr ag elusennau, yn ymwneud â phryderon diogelu.

Roedd dros hanner y digwyddiadau difrifol a adroddwyd gan yr elusennau i'w rheoleiddiwr yn ymwneud â phryderon diogelu (1,203 o blith 2,182).

Yn ddiweddar mae'r Comisiwn wedi diweddarau ei strategaeth ar ddiogelu mewn elusennau, gan atgoffa ymddiriedolwyr y dylent fynd ati'n rhagweithiol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant buddiolwyr eu helusen a chymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw eu buddiolwyr nac eraill sy'n dod i gysylltiad â'u helusen yn cael niwed o ganlyniad.

Fis diwethaf, cyhoeddodd y Comisiwn hysbysiad i elusennau yn eu hatgoffa o bwysigrwydd diogelu, yn sgil nifer o adroddiadau o ddigwyddiadau difrifol, a diddordeb a phryderon cynyddol ymysg y cyhoedd ynglŷn â honiadau o aflonyddu yn y gweithle, gan gynnwys adroddiadau yn y cyfryngau ynglŷn â digwyddiadau diogelu sydd wedi effeithio ar elusennau.

Gallwch ddarllen y datganiad i'r wasg a'r adroddiad llawn ar wefan y Comisiwn Elusennau.

Mae gwasanaeth Diogelu WCVA yma i gefnogi'r sector drwy ddarparu gwybodaeth ac arweiniad am ddim ar ddiogelu. Os oes gennych ymholiad neu bryder ynglŷn â diogelu yn eich mudiad, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu, Suzanne Mollison drwy ebostio safeguarding@wcva.org.uk neu ffoniwch ein Desg Gymorth 0800 2888329